# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
# COFNODION Y CYFARFOD RITHIOL ARBENNIG
# NOS WENER 29/01/2021 AM 7.00pm

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
   Croesawodd y Cynghorydd Gareth Owen bawb i'r cyfarfod; trefnwyd i drafod tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned brynu cyn-adeilad Eglwys Dewi Sant, Pontrhydfendigaid at ddibenion y Gymuned, petai cymhorthdal yn caniatau. Gosodwyd yr adeilad ar y farchnad ar y 23.01.2021 gan yr *Eglwys yng Nghymru* ac *Ystâd Lisburne.*

2. **YN BRESENNOL**
   Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Angharad Jones; Y Cyngh. John Jones; Y Gyngh. Laura Jones; Cynghorydd Sirol. Ifan Lloyd-Davies; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Doug Rowbotham & Eleri Thomas (Clerc).

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defyndd o'r rhyngrwyd ac yn cysgodi); y Cyngh. Non-Jones; y Cyngh. Wil Lewis (dim mynediad i'r rhyngrwyd) &'r Cyngh. Alun Price-Jones (heb fod yn gwneud defnydd o'r rhyngrwyd ac yn cysgodi).

   Adroddwyd bod y Cyngh. Non Jones, y Gyngh. Mair Jones a'r Cyngh.Alun Price Jones yn cefnogi'r fenter.

4. **DISGRIFIAD O'R SAFLE**
   Lleolir Eglwys Dewi Sant ar ochr orllewinol Heol y Teras (B4343) ar gyrion ddeheuol y pentref, oddi ar y ffordd, mewn mynwent siap hirsgwar. Fe'i hadeiladwyd ym 1898-1900 (er bod y garreg sylfaennol yn dyfynnu 1888) a dyluniwyd ganTelfer Smith, Llanfair-ym-Muallt. Adeiladwyd o slabiau rwbel wedi'u cwrso'n fras a thoeau llechi; mae'n eglwys un-to â phorth ogledd-orllewinol, cloch gorllewinol a festri i'r de-ddwyrain, a chyda ffenestri lancet parau a thriau.

   Codwyd eglwys genhadaeth Tyddewi, Pontrhydfendigaid drwy danysgrifiad am gost o £1,500 ar safle a roddwyd gan Iarll Lisburne.

   (Ctrl + Cliciwch i ddilyn y ddolen).
   Terrace Road, Pontrhydfendigaid, SY25 6EE - Morgan & Davies - Estate Agents West Wales (morgananddavies.co.uk)

5. **TRAFODAETH GYFFREDINOL**
   **Cytunwyd y byddai'r prosiect yn fenter sylweddol. Gofynnwyd cwestiynau megis "A ydym yn bwriadu gwireddu'r cynllun ar liwt ein hun? A ydy'n bosibl? Pa grantiau sydd ar gael?"**

   - Dywedodd y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies y dylid cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb. Mae'n bosibl y gellid dod o hyd i gymhorthdal dan law *Cynllun Cynnal y Cardi,* Cyngor Sir Ceredigion.
   - Roedd si bod 30 o ddatganiadau o ddiddordeb eisoes wedi'u hymwneud.
   - Tynnodd y Gynghorydd Clare Hughes sylw'r aelodau at y bwlch ar wal dalcen yr Eglwys ble'r oedd dŵr yn gollwng i'r adeilad; gallai fod costau ychwanegol i'r pris gofyn. Roedd y pŵer trydan wedi'i ddileu, dwy flynedd yn ôl, pan gaeodd yr Eglwys ei drysau.

6. **DEFNYDD POSIBL**

Byddai angen ceisio ffynonellau grantiau ee Loteri a chyrraedd meini prawf penodol pan yn cyflwyno'r Cais am Grant.

Meddylid na fyddai defnyddio'r adeilad ar gyfer caffi'n unig yn ddigonol i gwrdd â'r meini prawf. Yn ogystal, gellid ystyried unedau Iaith Gymraeg; Technoleg Gwybodaeth a Chyfabrethu (TGCh); swyddfeydd ar gyfer y rhai sy'n gweithio gartref, oriel gelf, gweithdai rhwydweithio celf, yn ogystal â rhwydweithio bersonol. Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i gynnig bwyty yn ogystal â chaffi ond tybiwyd y byddai angen £30,000-£50,000 ychwanegol. Sefydlwyd ganolfan gymunedol ym Mhenparcau, Aberystwyth y gellid defnyddio fel model sy'n darparu gwasanaethau megis casgliadau ar gyfer cartrefi, TGCh a Chlwb Ieuenctid.

Roedd rhai aelodau o'r farn bod Penparcau yn cynrychioli poblogaeth fawr a'r angen cysylltiedig oedd heb fod yn amlwg ym Mhontrhydfendigaid. Roedd y pentref eisoes yn cynnwys Neuadd Bentref, Pafiliwn, Capel Methodistiaid a'r Bedyddwyr a'r festri atodol. Adroddwyd bod Neuadd Pantyfedwen yn cynnig cyfleusterau gwahanol i'r hyn a allai fod ar gael o fewn Eglwys Dewi Sant er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau. Safodd yr adeilad ar gyffordd Heol yr Abaty a gallai ddenu ymwelwyr i'r Abaty.

Opswin pellach oedd dymchwel yr Adeilad ac adeiladu tai i gynnwys tai cymdeithasol a fforddiadwy. Gellir newid y statws cynllunio.

**Parcio**: llecyn bach o dir gerllaw'r Eglwys oedd eiddo'r *Eglwys yng Nghymru* i gynnwys tir lle safai'r lloches bws. Roedd perchnogion tir y tu ôl i'r eglwys wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio o'r blaen ond gwrthodwyd hynny oherwydd problemau mynediad. (6 darn o dir).

Adroddwyd mai anodd oedd y cyfnod presennol, ac o bosibl y byddai angen £100,000 ychwanegol i'r hyn a ofynnwyd i drosi'r adeilad i safon dderbyniol. Gallai adeiladau eraill gau yn y dyfodol o fewn y gymuned a byddai'r Cyngor Cymuned yn wynebu'r un sefyllfa unwaith eto. Roedd un capel eisoes wedi cau yn Ffair Rhos.

Cytunwyd i ofyn i Gyngor Sir Ceredigion am astudiaeth ddichonoldeb.

**7. ARCHWILIO'R ADEILAD**

Roedd yn bosibl i ymweld â'r safle ar ddydd Sadwrn 30ain Ionawr am 10.30am.
**Gwerthwyr Tai**: *Morgan a Davies*. Teimlwyd y byddai'n werth asesu cyflwr yr adeilad. (i edrych ar y wal gable, estyniad Lisburne, trydan)

Cytunodd dirprwyaeth o'r Cynghorwyr i gynnwys y Cadeirydd, y Cynghorydd Gareth Owen, i fynychu'r cyfle ymweld ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm.**

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Sul 31ain Ionawr 2021 @7pm via Zoom.**

================================================ (Arwyddwyd/dyddiad)